# Grŵp Trawsbleidiol ar Saethu a Chadwraeth

Dydd Mawrth, 6 Chwefror, 2024 am 12.00

Ystafell Gynadledda A, Tŷ Hywel

**Cofnodion**

**1. Croeso ac ymddiheuriadau**

Croesawodd Samuel Kurtz AS yr Aelodau a'r rhanddeiliaid i'r cyfarfod a diolchodd i bawb am fod yn bresennol.

Roedd Samuel Kurtz AS am ddymuno gwellhad buan i'w Fawrhydi'r Brenin yn dilyn y newyddion diweddar o'i ddiagnosis o ganser.

Diolch i BASC am ddarparu lluniaeth i bawb a oedd yn bresennol heddiw.

Yn bresennol: Samuel Kurtz AS, Peter Fox AS, Lee Gonzalez (swyddfa Joel James AS),Aelod o staff yn cynrychioli Tom Giffard AS Anne Banks (Staff), David Boden (BASC), Steve Griffiths (BASC), Spike Butcher (A2S), Charles De-Winton (CLA), Rachel Evans (CA), Glynn Evans (BASC), Matthew Goodall (GWCT), Sue Evans (GWCT), Louisa Clutterbuck (Eat Wild), Dominic Boulton (GFA)

Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth Llyr Gruffydd AS, James Evans AS ac Alun Davies AS.

**2. Cyfarfod cyffredinol blynyddol**

Gohiriwyd tan ddyddiad diweddarach am fod Aelodau o'r Senedd i ffwrdd ar fusnes y Senedd.

**3. Adar hela a systemau dodwy uchel (Pennaeth Helwriaeth a Rheoli Bywyd Gwyllt BASC**

**Rheoli – Glynn Evans)**

Yn y cyflwyniad PowerPoint a'r pwyntiau trafod rhoddwyd sylw i'r canlynol:

- Systemau dodwy ar gyfer ffesantod a phetris.
- Ystyriaethau megis: bioddiogelwch, parasitiaid, atal clefydau, lles anifeiliaid a rheoli ysglyfaethu.
- Astudiaethau ymchwil. Canlyniadau astudiaeth a ariannwyd gan Defra (AW1303); i benderfynu a all bridio mewn cawell ddiwallu anghenion adar hela.
- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru god ymarfer ar gyfer lles adar a fegir at ddibenion helwriaeth.
- Trafodwyd pam na chafodd y cod ymarfer ei ddiweddaru yn dilyn cyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru yn 2019.
- Mae croeso i bawb gyflwyno cwestiynau ysgrifenedig i Samuel Kurtz AS a Peter Fox AS ar y pwnc.

**4. Ffair Helwriaeth Cymru 2024. (Sue Evans GWCT)**

Cafwyd diweddariad ar statws Ffair Helwriaeth Cymru a beth yw’r gobeithion o ran rhagor o gymorth ariannol. Byddai Sue Evans yn rhoi diweddariad i aelodau’r Grŵp dros y dyddiau nesaf ynghylch a fydd y digwyddiad yn cael ei gynnal eleni ar Stad Glan-wysg.

**5. Diweddariad byr ar ymgynghoriad HSE ar fwledi a phelenni plwm.**

(David Boden BASC)

Yn 2023, aeth deiseb gyda 4,000 o lofnodion gerbron Pwyllgor Deisebau’r Senedd ar wahardd y defnydd o blwm mewn bwledi a phelenni yng Nghymru. Penderfynwyd cau'r ddeiseb ac aros am ganlyniad adroddiad HSE/UK REACH.

Cafwyd diweddariad ar y pwyntiau isod:

- Y cefndir y tu ôl i adolygiad UK REACH o fwledi a phelenni plwm.
- Mae’r broses hyd yn hyn yn galw am dystiolaeth ac ymgynghoriadau.
- Gohiriwyd yr amserlen.
- Canlyniadau posibl y cynigion a'r cyfyngiadau sy’n debygol o gael eu gweld yng Nghymru.
- Pwysigrwydd sicrhau bod gan bob un o'r tair gwlad ddull cyson.

**6. Unrhyw Fater Arall**

**7. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Cynhelir cyfarfod ar Teams yn y dyfodol agos (dyddiad i’w bennu) ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol byr pan fydd Aelodau’n dychwelyd i fusnes y Senedd.

Cyfarfod ffurfiol nesaf: Cytunwyd y byddai’r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf 2024